



Canllaw i redeg ymgyrch hygyrch a chynhwysol

Mae ein holl fyfyrwyr yn cael eu hannog i sefyll yn ein hetholiadau, ond rydym yn cydnabod bod rhai myfyrwyr yn wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag cymryd rhan.

Mae'n bwysig ystyried sut, fel ymgeisydd y gallwch chi gynnal ymgyrch hygyrch er mwyn sicrhau bod pawb sydd am wneud hynny'n cael mynediad cyfartal i gyfranogi!

Hygyrchedd:

Mae'r canllaw hwn yn gydnaws â thechnoleg darllen sgrin, ac mae fersiwn y gellir ei olygu ar gael i'w lawrlwytho yma.

Os ydych chi angen y canllaw hwn mewn ffurf amgen, mae croeso i chi e-bostio undeb.etholiadau@aber.ac.uk

Mae'r canllaw hwn wedi'i ysbrydoli gan ddeunydd a grëwyd gan KCLSU.

Defnyddio'r rhagenwau cywir

Rhagenwau 101

- Peidiwch byth â chymryd rhagenwau pobl yn ganiataol; mae hyn yn gallu achosi trallod gwirioneddol i unigolyn – os ydych chi'n ansicr defnyddiwch nhw/hwy
- Gall rhagenwau fod yn arwydd o hunaniaeth, ond nid ydynt o reidrwydd yn dynodi hunaniaeth rhyweddol
- Gall rhagenwau newid. e.e. gall pobl rhywedd-hyblyg ddewis rhagenwau gwahanol yn ystod diwrnod
- Mae'n bosibl y bydd rhai pobl yn gyfforddus iawn â rhagenwau tra bod eraill yn dal i ddarganfod eu rhai nhw - mae cychwyn sgwrs am ragenwau yn bwysig, ond peidiwch â gwthio'r mater os nad yw rhywun yn ymateb.

Yn ystod y cyfnod ymgyrchu:

- Cyflwynwch eich hun gyda'ch rhagenwau os ydych chi'n teimlo'n gyfforddus i'w rhannu
 - Os ydych yn ansicr o ragenwau rhywun, gofynnwch yn gwrtais ond peidiwch â rhoi pwysau arnynt i rannu
 - Anogwch bobl i ddefnyddio bathodynau rhagenw neu ychwanegu at eu bio Zoom ar gyfer digwyddiadau
 - Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod rhywun yn teimlo'n gyfforddus i rannu eu rhagenwau ym mhob sefyllfa
-



Rhannu eich syniadau

Blaenoriaethau

- Ystyriwch sut gallai grwpiau gwahanol o fyfyrwyr gael eu heffeithio gan eich syniadau
- Meddyliwch am eich dewisiadau o ran iaith, ac a yw'r rhain yn adlewyrchu'r myfyrwyr yr ydych yn gobeithio eu cynrychioli – os nad ydych yn siŵr, beth am ofyn i rai myfyrwyr beth yw eu barn

Cyfyngau Cymdeithasol:

- Ychwanegwch gapsiynau at straeon Instagram
- Ychwanegwch ddisgrifiadau o ddelwedd ar gyfyngau cymdeithasol - i rai mae hyn wedi'i ymgorffori yn y wefan, ond i eraill fel Instagram gallwch chi ychwanegu at y capsion.
- Os oes opsiwn testun-yn-unig sy'n gydnaws â darllynydd sgrin - gallwch ddefnyddio ctrl shift U ar y rhan fwyaf o ddogfennau pdf
- Ychwanegwch gapsiynau at gyfarfodydd Zoom

Posterï:

- Ystyriwch ddefnyddio rai posterï testun-yn-unig
- Dylech osgoi cefndiroedd gwyn plaen - mae lliw ychydig tywyllach na gwyn yn fwy hygyrch i bobl â gwahaniaethau canfyddiadol
- Mae codau QR gyda gwybodaeth ychwanegol hefyd yn dda i bobl allu mynd â gwybodaeth i ffwrdd a'i darllen yn eu hamser eu hunain

Cynnal digwyddiadau

Y camau cynllunio:

- Meddyliwch am gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau – mae'n well gan rai myfyrwyr ddigwyddiadau nad ydynt yn cynnwys alcohol
- Ystyriwch amrywio amseroedd eich digwyddiad – ydy eich digwyddiad wedi'i drefnu ar adeg casglu plant o'r ysgol neu'n hwyr yn y nos pan fydd myfyriwr anabl wedi rhedeg allan o egni?
- Ychwanegwch rybudd ar ddechrau trafodaethau o bynciau sensitif fel y gall myfyrwyr baratoi ymlaen llaw
- Cynlluniwch seibiannau sydd o leiaf 10 munud yn ystod digwyddiadau lle mae gan fyfyrwyr yr opsiwn i godi a symud o gwmpas. Dylech sôn am y rhain ar ddechrau'r digwyddiad.
- Ystyriwch ffrydio digwyddiadau'n fyw ar yr un pryd ar gyfer myfyrwyr na allant fynychu'n bersonol, e.e. dysgwyr o bell neu fyfyrwyr anabl



- Bydd darparu agenda sylfaenol ar gyfer y digwyddiad ymlaen llaw yn helpu myfyrwyr niwroamrywiol i baratoi ar gyfer mynychu'r cyfarfod

Ystyriaethau mynediad corfforol:

- A oes mynediad i'r lleoliad sydd heb risiau neu oes lifft ar gael?
- A oes lle tawel i fyfyrwyr fynd iddo os ydynt yn teimlo eu bod wedi'u gorgysgogi neu'n bryderus?
- A oes toiledau rhywedd-niwtral ar gael?
- Oes angen i chi drefnu dehonglydd BSL neu ddefnyddio dolen glyw?
- Cerddoriaeth – ystyriwch pa mor uchel yw'r gerddoriaeth
- Goleuadau – a fydd goleuadau strôb?

Gwnewch yn siŵr bod unrhyw opsiynau hygyrch sydd ar gael yn cael eu cyfleu i fyfyrwyr cyn y digwyddiad. Sicrhewch hefyd fod opsiwn i fyfyrwr gysylltu â chi am ragor o wybodaeth neu i ofyn am addasiad rhesymol.

Gallech ddefnyddio rhywbeth fel y canlynol: "*Os oes gennych chi anabledd neu unrhyw anghenion ychwanegol a bod angen cymorth arnoch i gymryd rhan lawn yn y gweithgaredd hwn, anfonwch e-bost at [abc@aber.ac.uk]*"

Mynd at fyfyrwyr

Mynd allan a siarad â myfyrwyr yw un o'r ffyrdd gorau o ymgyrchu, ond nid yw hynny'n golygu bod pawb yn teimlo'n gyfforddus wrth i bobl fynd atyn nhw am sgwrs.

Peidiwch â rhoi pwysau ar fyfyrwr i ymgysylltu â chi os yw'n anghyfforddus, a gofynnwch am ganiatâd bob amser cyn eu cynnwys nhw mewn unrhyw beth.

Sylwch: mae'n bosib y bydd rhai pobl yn defnyddio bathodynau goleuadau-traffig Anabledd Cudd yr UM neu linyddau gwddf blodyn yr haul i ddangos a ydynt yn teimlo'n gyfforddus i rywun fynd atynt am sgwrs ai peidio.

Adrodd am ddigwyddiadau:

Fel ymgeisydd rydych yn rhwym i weithredu o fewn y gyfraith, rheolau'r etholiad, prosesau'r brifysgol a'n siarter myfyrwyr.

Os byddwch yn gweithredu'n groes i unrhyw un o'r rhain, byddwch yn destun ymchwiliad a'r posibilrwydd o gael eich diarddel o'r broses etholiadol neu hyd yn oed wynebu achos troseddol.

I adrodd am ddigwyddiad, gweler ein trefn ar gyfer gwneud cwynion yma.